# CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | S.Yelland, G.Morgan, V.Holland, C.Holley, A.Dacey a/ac M.Harvey |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | J.Burnes, S.Aldred Jones, D.Oliver S.Cutlan a/ac T.Rees |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

Cadarnhaodd y Gwasanaethau Democrataidd fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan y Cynghorydd R Sparkes, y Cynghorydd J Curtice a'r Cynghorydd J Beynon.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

4. **ADRODDIAD ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL**

Ni chraffwyd ar yr eitem hon.

5. **DIWEDDARIAD RHAGLEN SGILIAU A THALENTAU**

Cyflwynwyd trosolwg o'r Rhaglen Sgiliau a Thalent fel y'i cynhwyswyd yn yr adroddiad gan Reolwr y Rhaglen Sgiliau a Thalent, Samantha Cutlan.

Gofynnodd yr aelodau am ffigur wedi'i ddiweddaru mewn perthynas â'r nod o greu llwybrau at 3,000 o brentisiaethau. Dywedodd swyddogion fod y

targed yn heriol ond y gellir ei gyflawni. Ar hyn o bryd mae 100 o brentisiaid wedi'u recriwtio drwy gam adeiladu sawl prosiect y Fargen Ddinesig. Mae'r ffigur a adroddir yn is na'r swm a ragwelir gan nad yw cofrestriadau prentisiaeth ar gyfer y calendr academaidd hwn wedi'u cynnwys eto ac mae angen dulliau adrodd cadarn er mwyn adrodd yn gywir ar ffigurau. Mae angen cynllun gweithredu i wella ymgysylltiad â chontractau eraill y Fargen Ddinesig i gynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau a'u manteision. Mae angen system olrhain ffurfiol i sicrhau nad oes dyblygu wrth adrodd.

Gofynnodd yr aelodau a oes rhestr o gwmnïau sy'n cyflenwi neu'n helpu i gael cyllid. Cadarnhaodd swyddogion fod chwe chais arall yn cael eu prosesu drwy'r broses gymeradwyo yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd fod llawer o brentisiaethau wedi'u seilio ar fuddsoddiad preifat a holodd a oedd lle i brentisiaethau o fewn awdurdodau lleol. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn briodol os oes cysylltiad ag unrhyw brosiect y Fargen Ddinesig, yn enwedig o fewn y cam adeiladu. Mae angen cymorth pellach i recriwtio'r ymgeisydd cywir i'r rôl gywir.
Dywedodd y Cadeirydd fod y Fargen Ddinesig wedi cyrraedd hanner ffordd a gofynnodd beth oedd yr amserlen ar gyfer cyrraedd y targed prentisiaeth? Cadarnhaodd swyddogion fod allbwn y rhaglen Sgiliau a Thalent 5 mlynedd ar ôl i'r gwariant gael ei gwblhau a bod 18 mis i 2 flynedd arall o wariant. Mae targedau eraill ar y trywydd iawn a byddant yn cael eu rhagori'n gyfforddus, ond y gobaith oedd y byddai'r prentisiaethau a gyflawnwyd yn nes at y targed erbyn 2025. Holodd y Cadeirydd a oedd modd cyflawni'r targed prentisiaeth o 3,000 ar ôl cwblhau'r gwariant? Cadarnhaodd swyddogion fod gwaith gyda chontractwyr i fod i ddechrau ar ôl y Nadolig, gyda'r nod o gynyddu nifer y prentisiaethau yn y tymor byrrach. Yn y tymor hwy, bydd y gwaith parhaus o greu prentisiaid yn cael ei gyflwyno a bydd y ffigurau'n cynyddu.

Dywedodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe y bydd y cynlluniau peilot yn creu cyfres o brentisiaethau. Mae llawer o golegau, ysgolion a phrifysgolion yn ymgysylltu â'r diwydiant drwy'r broses hon. Mae galw am uwchsgilio, bydd hyn yn symud ymlaen drwy'r broses beilot a bydd prentisiaethau yn rhan o'r broses. Nodwyd nad yw'r Rhaglen Sgiliau a Thalent hanner ffordd drwy'r rhaglen eto. Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol oedd y cyfrwng o ddewis i weithredu'r Rhaglen Sgiliau a Thalent a bydd yn dal i fodoli ar ôl i'r rhaglen ddod i ben, fel hyn bydd ymgysylltu a monitro yn parhau.
Nodwyd yr adroddiad.

## 6. DIWEDDARIAD SEILWAITH DIGIDOL

Rhoddodd Dija Oliver, Rheolwr Prosiect Rhaglen Isadeiledd Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, gyflwyniad i'r aelodau ar y Rhaglen Isadeiledd Digidol fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddog am y cyflwyniad a gwnaethant sylw bod hwn yn brosiect pwysig sy'n cael ei gynnal drwy'r Fargen Ddinesig oherwydd nifer y preswylwyr â chysylltedd gwael mewn rhai rhannau o'r rhanbarth. Nodwyd bod cysylltedd da yn hanfodol bwysig i fusnesau a phobl sy'n gweithio gartref.

Dywedodd yr aelodau nad oedd gan rai ardaloedd yn etholaeth Gŵyr unrhyw gysylltiad â'r rhyngrwyd ac mae pryder y bydd rhai preswylwyr yn cael eu heithrio'n ddigidol. Mae angen cyfathrebu da yn yr ardal wledig i hybu'r niferoedd sy'n manteisio arno. Cadarnhaodd swyddogion fod tîm newydd yn ei le yn Abertawe sydd wrthi'n dadansoddi data i ddeall nifer yr eiddo yr effeithir arnynt ym mhob ward. Bydd y tîm yn cynllunio i gwrdd ag aelodau i nodi sut y gellir cyfathrebu'r wybodaeth yn fwyaf effeithiol ag etholwyr. Bydd ymgyrchoedd cyfathrebu yn cael eu cynnal mewn perthynas â rhai o'r cynlluniau. Un cynllun sy'n cefnogi pobl ar unwaith yw Cynllun Allwedd Band Eang Cymru, lle gellir defnyddio technoleg amgen. Mae llawer o breswylwyr Sir Gaerfyrddin yn symud i Star Link ond mae'r gost yn afresymol ac mae angen i'r gwasanaeth fod yn fwy cystadleuol. Nodwyd bod cyfathrebu'n bwysig, gan nad yw llawer o bobl yn deall beth sydd ar gael a phryd y mae'n dod, ond mae angen gosod disgwyliadau mewn perthynas â phryd y bydd ffeibr ar gael.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn hapus bod cyfanswm Virgin Media wedi'i eithrio o'r ffigurau gan nad oedd yn deg. Gofynnodd y Cadeirydd, ar wahân i roi cyngor, beth sy'n cael ei wneud yn gorfforol i fynd i'r afael â'r materion, gan fod Cyflymu Cymru ac Allwedd Band Eang Cymru yn gynlluniau Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn atebion i'r Fargen Ddinesig. Nododd y Cadeirydd y dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn edrych i fynd i'r afael â materion drwy atebion Cymru/y DU, yn hytrach na chwmnïau preifat fel Star Link, oherwydd y ddadl ynghylch penderfyniad Elon Musk i ddiffodd y gwasanaeth yn Wcráin, ac roedd am wybod pa atebion ffisegol sy'n dod yn sgil y Fargen Ddinesig.

Cadarnhaodd swyddogion fod buddsoddiad cyfalaf neu refeniw'n cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phroblemau, bydd y rhwydwaith ffeibr tywyll i

33 o safleoedd strategol, yn ardal Llanelli/Abertawe/ Castell-nedd i ddechrau, yn dod â ffeibr gradd busnes ychwanegol i'r ardaloedd hynny. Bydd hyn hefyd yn darparu ôl-drosglwyddiadau data ar gyfer ffonau symudol. Bydd gorchymyn Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) yn dod â ffeibr ychwanegol i 401 o adeiladau. Dywedodd swyddogion eu bod hefyd yn edrych ar sicrhau nad ydynt yn dyblygu cyllid nac yn atal cyflwyno masnachol. Nid yw swyddogion yn gallu gwneud ymyriadau lle mae cynlluniau masnachol yn bodoli, ond mae ganddynt y data i ddeall ble y gallant ymyrryd. Mae gan swyddogion hefyd y data ynghylch lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn bwriadu ymyrryd ond mae'n debygol y bydd yr hyn a fydd ar ôl yn safleoedd anodd eu cyrraedd.

Mae angen nodi'r rhain a mynd i'r afael â hwy, mae potensial i wario cyllid y Fargen Ddinesig tuag at hyn a symud rhywfaint o ddyraniad cyllid o leoedd cysylltiedig i fynd ymhellach. Nodwyd bod cronfa gyfyngedig o bobl sy'n gallu darparu'r isadeiledd ac felly mae dadansoddi data yn hanfodol i lywio cynlluniau'r swyddogion.
Holodd yr aelodau a oedd y cynllun i wella ffeibr i gabinetau fel bod darparwyr yn gallu gwerthu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid? Dywedodd swyddogion ei fod yn gysylltiad ffeibr i'r adeilad ac y bydd y llwybrau ffeibr yn mynd drwy'r parthau diwydiannol allweddol yn y rhwydwaith ffeibr tywyll, y gallent wedyn eu cysylltu gan fod y Fargen Ddinesig wedi talu am ffeibr hwnnw drwy asedau a safleoedd sector cyhoeddus, ac yna y gall sefydliadau masnachol adeiladu ar hynny.

Ar y rhwydwaith ffeibr tywyll, byddai'n ffeibr gradd busnes, ond bydd yr ôl-drosglwyddiad data yn cefnogi preswylwyr. Bydd y Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus o fudd i breswylwyr. Mae gwariant cyfalaf y Fargen Ddinesig o dan ardaloedd gwledig yn targedu'r hyn a elwir yn ‘adeiladau gwyn’, sef adeiladau nad ydynt yn gallu trosglwyddo data ar gyfradd gigadid neu lai na 10MB. Yn bennaf, mae swyddogion yn edrych ar bobl na allant gael cyflymder hyd at 30MB.

Holodd y Cadeirydd faint fydd wedi newid oherwydd buddsoddiad uniongyrchol ar ôl i'r Fargen Ddinesig ddod i ben. Cadarnhaodd swyddogion mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a gweithredwyr ffonau symudol oedd cysylltedd symudol a nodwyd ei bod yn anodd mesur ar hyn o bryd pa newidiadau fyddai ar waith wrth gwblhau'r Fargen Ddinesig, ond y nod yw sicrhau bod cynifer o eiddo â phosib gyda llai na 30MB. Mae'r buddsoddiad o £12,000,000 mewn mastiau drwy Vodafone ond mae'r mastiau yn rhai isadeiledd a rennir ar gyfer cyflenwyr eraill. Bydd hyn yn lleihau nifer y mastiau yng nghefn gwlad ond yn cynyddu'r mynediad i signal i bawb, yn

enwedig mewn argyfyngau. Mae swyddogion yn credu bod y Fargen Ddinesig wedi dylanwadu ar benderfyniadau oherwydd bod yr adnoddau sydd ar waith yn cefnogi defnyddio isadeiledd.

Dywedodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe fod y strwythur a grëwyd gan isadeiledd digidol yn rhagorol. Daw llawer o'r cyllid o'r sector preifat gyda swm bach iawn o gyllid y Fargen Ddinesig wedi'i defnyddio eisoes. Mae'r ardal hon yn cyflymu'n gyflymach nag ardaloedd eraill. Bydd y cyllid presennol sydd ar gael ochr yn ochr â chyllid y Fargen Ddinesig yn cael ei fwyafu ar draws y rhanbarth, gan ystyried unrhyw gyfleoedd cyllido yn y dyfodol hefyd. Mae ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r DU yn gryf, a bydd y berthynas yn parhau i gryfhau. Nododd swyddogion fod y defnydd o wasanaethau yn bwysig er mwyn cynnal cyflenwyr yn y rhanbarth.
Nodwyd yr adroddiad.

## 7. MONITRO ARIANNOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE CHWARTER 4 2022/23

Dywedodd y Cadeirydd fod dau adroddiad monitro ariannol oherwydd y bwlch rhwng cyfarfodydd a gofynnodd i Swyddogion ganolbwyntio ar adroddiad Eitem 8, gan gyfeirio at Eitem 7 lle bo'n briodol.

Nodwyd yr adroddiad.

## 8. MONITRO ARIANNOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE CHWARTER 1 2022/23

Darparodd Steven Aldred Jones, y Rheolwr Cyllid Rhanbarthol, ddiweddariad ar y sefyllfa Alldro Dros Dro ar gyfer Ch1 2023/2024 fel y'i cynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr aelodau am esboniad ynghylch pam mae'r gwariant cyfalaf hyd yma mor wael dros yr amcanestyniad. Dywedodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe, er ein bod ym mlwyddyn 7 o ran cyflawni gwirioneddol, rydym yn siarad am y 2-3 blynedd diwethaf. Roedd sawl ffactor y tu allan i reolaeth swyddogion, sydd gyda'i gilydd wedi achosi llithriant, gan gynnwys COVID, pwysau chwyddiant, costau adeiladu a phrisiau ynni cynyddol. Mae mesurau lliniaru ar waith ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod cwmpas yr hyn a gynlluniwyd yn dal i gyd-fynd â'r dibenion.

Mae swyddogion yn mynd drwy geisiadau am newid fel Prosiect Morol Doc Penfro gyda'r cyfle am ffermydd gwynt ar y môr, felly newidiodd

swyddogion yr achos busnes fel y gwnaethant gyda’r prosiect Matrics a chyda Chastell-nedd Port Talbot o amgylch y Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch. Mae hyn yn golygu eu bod yn sicrhau bod prosiectau'n dal i fod yn berthnasol, ond mae newidiadau'n cymryd amser i'w cymeradwyo.

Dywedodd swyddogion eu bod hefyd yn ceisio cyllid ychwanegol, yn bennaf oherwydd y darparwyr newydd, felly gall gymryd amser hir i fynd i lawr y broses o gymeradwyo cyllideb. Mae cytundebau ariannu yn ddull rheoli sy'n cymryd llawer mwy o amser gan eu bod yn ddogfennau cyfreithiol. Mae swyddogion hefyd wedi defnyddio peirianneg gwerth ar rai prosiectau.

Nodwyd bod y broses ail-gymeradwyo yn cymryd llawer o amser, ond ni fydd unrhyw lithriant yn effeithio ar gyflawni prosiect, dim ond yr amserlen ar gyfer ei gyflawni.

Dywedodd yr Aelodau fod y prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn dibynnu ar adeiladwyr tai a holwyd sut yr effeithiwyd ar y prosiect gan y cynnydd mewn cyfraddau morgeisi ac arafu adeiladu tai mewn rhannau eraill o'r DU. Dywedodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe fod risgiau ond bod y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn parhau i fod yn ymrwymedig ac yn adeiladu/adnewyddu. Mae stoc tai awdurdodau lleol ac adeiladwyr sector preifat. Yr arwyddion yw bod pobl yn dal i gyflawni a defnyddio proses saernïo ecogyfeillgar sy'n cefnogi syniad a thechnoleg Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Cafwyd dadansoddiad o'r gadwyn gyflenwi, a chyflogwyd aelod o staff i gefnogi a datblygu'r gadwyn gyflenwi o amgylch arloesedd yn y cartrefi. Mae ymgysylltu yn parhau â llywodraethau Cymru a'r DU, LCC a darparwyr eraill. Mae galwad ariannu wedi dod i ben yn ddiweddar, a derbyniwyd nifer o geisiadau yn y rownd gyntaf o gyllid fel y gellir ystyried a chynnwys cartrefi newydd a chartrefi wedi'u hadnewyddu.

Dywedodd swyddogion fod llawer o waith cyfochrog yn digwydd gyda chartrefi Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer ac mae'r rhain yn cael eu monitro a'u hystyried hefyd. Mae prisiau tai wedi cynyddu felly mae swyddogion yn credu y bydd cyllid y sector preifat yn cael ei gyflawni, hyd yn oed os caiff llai o dai eu hadeiladu, efallai y bydd cydbwysedd.

Nododd yr Aelodau fod buddsoddiad dros y blynyddoedd nesaf yn rhan hanfodol o'r Fargen Ddinesig.  Eglurodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu dosbarthu fel sector preifat mewn perthynas â chyllid y sector preifat.

Nodwyd yr adroddiad.

9. **ADRODDIAD MONITRO CHWARTEROL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Bae Abertawe drosolwg o'r adroddiad monitro chwarterol sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn agenda.

Ymgysylltu â busnesau a chyfathrebu – Dywedodd swyddogion fod yr adroddiad blynyddol wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi, ac roedd swyddogion yn gobeithio llunio astudiaethau achos o'r adroddiad hwnnw i'w wneud yn fwy dilys, gan rannu'r buddion a wireddwyd hyd yn hyn er mwyn rhoi diweddariad o ran cynnydd. Mae swyddogion hefyd yn ceisio mynd allan i gymunedau masnachol sy'n gysylltiedig â busnes drwy gynnal digwyddiad arddangos ym mhob un o'r 4 bwrdeistref. Maent eisoes wedi gwneud un yn Sir Benfro a oedd wedi denu llawer o bobl. Mae pob un o'r 9 prosiect a rhaglen yn rhan o'r arddangosfeydd.

Yr Egin – Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y digwyddiad i nodi 5 mlynedd ar 26 Hydref i ddathlu llwyddiant y prosiect.

Pentre Awel – Dywedodd swyddogion fod Parth 1 yn symud ymlaen. Mae pecynnau gwaith wedi'u cyflwyno i GwerthwchiGymru. Nid yw'r prentisiaethau'n wedi'u nodi eto ond maent wedi cael lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd rhyngweithio rhwng ysgolion yn ogystal â monitro gwariant adeiladu. Mae Pentre Awel wedi bod yn llwyddiannus gyda Grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac maent yn adnewyddu'r wefan ac yn postio fideos hyrwyddo ar-lein. Ym mis Mai 2023, lansiwyd prosiect sgiliau a thalent ar gyfer yr 21ain Ganrif. Dywedwyd wrth yr aelodau fod gan Bentre Awel weithgareddau cynlluniedig - ym Mharth 1 mae'n canolbwyntio ar arloesi a'r rhwydwaith busnes yn gweithio gyda Gogledd Cymru ar opsiynau ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Maent hefyd yn edrych ar gais cyfalaf y gronfa gofal integredig ac yn edrych ar rwydweithio, ymgysylltu, cydweithio a sicrhau arian ychwanegol.

Eglurodd swyddogion fod dyluniad cam 2 RIBA wedi'i gwblhau ar gyfer llety byw â chymorth parth 3 a bod swyddogion yn cwmpasu a modelu ar gyfer parth 2, sef y cartref nyrsio, ailsefydlu cleifion mewn cyfleusterau preswyl a chyfleuster gofal ychwanegol sy'n dod yn ei flaen yn dda.

Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer HAPS – Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod arweinydd y gadwyn gyflenwi wedi'i recriwtio a'i fod yn ei swydd. Mae gwaith ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi eisoes wedi digwydd, ac maent yn edrych ar y cyflenwad a'r galw ac yn ei adolygu ar draws y rhanbarth. Y dyddiad cau oedd 21 Medi ar gyfer yr alwad am gyllid, gyda'r broses hidlo'n parhau, sef dyrannu arian y Fargen Ddinesig yn y rownd gyntaf. Dywedodd swyddogion fod digwyddiad arddangos wedi'i gynnal gyda Modular ym mis Medi i ddangos i bobl sut olwg fyddai ar HAPS. Mae ganddynt hefyd gronfa datblygu'r gadwyn gyflenwi a byddant yn dyrannu honno yn yr wythnosau nesaf.

Cam 2 Yr Egin- Esboniodd swyddogion fod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn mynd ar drywydd cyfleuster cynhyrchu digidol; bydd angen i hyn fynd drwy gais am newid oherwydd nid yw’n rhan o’r cynllun busnes gwreiddiol fel y'i cymeradwywyd o'r blaen. Mae swyddogion yn aros ac yn eu cefnogi i ddatblygu hynny.

Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau - Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y gwesty’n dal i gael ei drafod i sicrhau datblygwr. Mae'r gwaith adeiladu ar Ffordd y Brenin yn parhau fel y cynlluniwyd ond mae oedi o 2 fis er ei fod ar y trywydd iawn o hyd. Mae'r seremoni gosod y garreg gopa'r wythnos nesaf felly mae ffurf allanol yr adeilad wedi'i chwblhau, ac maent yn marchnata'r adeilad ac mae ganddynt benawdau telerau sy'n mynd rhagddynt gyda thenant angor a threfniadau caffael ar gyfer cwmni rheoli adeiladu ar y gweill. Esboniodd swyddogion fod gan y Matrics Arloesedd asesiad hyder cyflawni o Ambr/Gwyrdd yn Adolygiad Gateway. O safbwynt tenantiaeth, dywedodd swyddogion eu bod yn gwneud yn wych, gyda 75% o'u deiliadaeth ar fin llofnodi penawdau telerau. Ers yr adroddiad hwn, dywedodd swyddogion fod y lefelau hyn hyd at 90% o ddiddordeb nawr o ran lefel penawdau telerau. Mae'r ganolfan arloesi a arweinir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn mynd drwy opsiynau gyda Chyngor Abertawe ac yn gobeithio mynd drwy broses newid yn ystod y misoedd nesaf.

Prosiect Morol Doc Penfro - Mae'r siediau awyrennau wedi'u cwblhau ac mae sied awyrennau 4 yn barod i'w throsglwyddo i'r tenant a bydd y 3 sied awyrennau arall yn cael eu trosglwyddo i'w tenantiaid yn fuan. Mae'r llithrfa bellach wedi'i chwblhau, ac mae'r gwaith i fewnlenwi'r pwll pren hefyd wedi'i gwblhau.

Maent yn gweithio gyda llawer o gynigion cydweithredol gyda chronfa arloesi strategol Ofgen yn edrych ar Wave a'r Grid Cenedlaethol ynghylch pwyntiau cysylltu â'r grid. Dywedodd y swyddogion eu bod

wedi rhannu'r astudiaeth brofi ac arddangos gyda Llywodraeth Cymru ac Ystad y Goron, gyda chwmni ffermydd gwynt ar y môr arnofiol, a'u bod yn gwneud llawer o waith cydweithredol ac ymgysylltu.

Dywedodd swyddogion fod risg newydd wedi'i nodi ym Mhrosiect Morol Doc Penfro mewn perthynas â'r Arwerthiant Contractau Gwahaniaeth aflwyddiannus, ynghylch ffermydd gwynt yr y môr sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth y DU. Hwn oedd prawf cyntaf y broses flynyddol, ac ni dderbyniodd unrhyw gynigion.

Ni wnaeth llawer o gwmnïau o amgylch Dinas-ranbarth Bae Abertawe roi cynnig ar rownd arwerthiant 5 na thynnu'n ôl ohoni cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi. Dywedodd swyddogion, o edrych yn ôl ar gyflwr y farchnad ynni, fod cynnydd sylweddol mewn prisiau yn wynebu ffermydd gwynt ar y môr i adeiladu'r tyrbinau gwynt. Roedd hyn yn golygu bod llawer o risgiau'n gysylltiedig â datblygwyr a chadwyni cyflenwi. Mae trafodaethau gweithredol ynghylch ail-ffurfio'r broses contract gwahaniaeth ac mae rownd arall ar ddod yng ngwanwyn 2024 o'r enw Rownd Arwerthiant 6, ac maen nhw'n gobeithio ailfywiogi twf ynni ffermydd gwynt ar y môr ar y cyd â Llywodraeth y DU. Disgwylir i brosiectau'r Môr Celtaidd ddatblygu drwy rowndiau prydlesu ar raddfa fasnachol Ystad y Goron, a byddant yn gwneud llawer o bethau o amgylch y cyfnod prydles gwely'r môr, ond bydd hynny'n cymryd peth amser i ymgymryd ag ef, a'r adborth gan bartneriaid yw nad oedd ffermydd gwynt ar y môr arnofiol yn llwyddiannus, ond nid yw'n ddangosydd o ganlyniadau llif yn y dyfodol yn enwedig yn y Môr Celtaidd. Mae'r cynllun gwaith ar waith i gyflawni canlyniadau Doc Penfro fel y cynlluniwyd a bydd y strwythur arloesi yno i wasanaethu pa bynnag drawsnewidiadau ynni sydd am ddegawdau i ddod. Mae gan swyddogion fesurau lliniaru gan bob un o'r partneriaid sydd ar gael pe bai aelodau am eu darllen.

Campysau - Mae swyddogion yn aros i'r cytundeb ariannu eilaidd rhwng Prifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gael ei gymeradwyo. Maen nhw wedi cwblhau cam 2 RIBA. Mae cam 3 RIBA ar gyfer Sketty Lane yn cael ei ddatblygu gan nodi'r gost uwch. Mae arolygon ecoleg ar gyfer llwybr mynediad Treforys wedi'u cynnal. Dywedodd swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud eisoes ar gyfer Cam 2 y campysau ar Heol Ashley, megis y cae hoci a chyfleusterau newid a chae 3G.

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel - Mae gan Ganolfan Dechnoleg y Bae 5 tenant sy'n meddiannu 37% o'r lle, ac mae tenantiaid posib pellach yn cael eu prosesu. Mae Morgan Sindal

wedi'i benodi'n gontractwr SWITCH, sef y gwaith o ddatgarboneiddio plwm dur gan Brifysgol Abertawe. Mae pedwar cais wedi'u symud ymlaen ar gyfer cam 2 y gronfa datblygu eiddo ac mae dau ar y rhestr wrth gefn sydd hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid. Cadarnhaodd swyddogion fod y prosiect ysgogi hydrogen yn mynd yn dda a'u bod yn gosod electroleiddiwr hydrogen 100KW. Dywedwyd wrth yr aelodau fod cyfleuster cynhyrchu gweithgynhyrchu uwch fel rhan o'r achos busnes ac mae'r Cyd-bwyllgor wedi cymeradwyo'r opsiwn iddynt wella'r rhan honno o'r achos busnes ac yna sicrhau'r £5.3 miliwn ychwanegol o gyllid i ddatblygu canolfan sgiliau ar gyfer cynhyrchu gweithgynhyrchu. Yn amodol ar gais am newid, bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r DU gymeradwyo hwn.

Dywedodd yr aelodau, o gyfanswm y targed swyddi o 9,686, fod 21% o'r buddsoddiad wedi'i wario a bod 5.6% o'r swyddi targed wedi'u creu a chwestiynwyd nifer y swyddi cynaliadwy y gobeithir eu cyflawni gyda'r buddsoddiad hwn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y ffigwr creu swyddi gwirioneddol yn uwch mewn gwirionedd, ond ni ellir adrodd ar hyn ar hyn o bryd gan fod angen gwerthusiad pellach.

Defnyddiodd swyddogion enghraifft Yr Egin sy’n cynnal gwerthusiad economaidd, a bydd hwn hefyd yn edrych ar nifer y swyddi a grëwyd fel y gellir ychwanegu’r swyddi hynny at y ffigurau. Eglurodd swyddogion y bydd pob prosiect o’r Fargen Ddinesig yn cael ei werthuso ar ôl iddo gael ei adeiladu a’i roi ar waith a fydd yn rhoi syniad o swyddi, buddsoddiad ehangach a’r effaith economaidd. Mae yna hefyd is-grŵp gwerthuso gyda'r holl arweinwyr prosiect a fydd yn nodi sut a beth y byddant yn ei werthuso. Nodwyd mai'r dyddiad targed ar gyfer creu swyddi yw 2033.

Mewn perthynas â Phrosiect y Brifysgol, gofynnodd yr aelodau am gadarnhad bod costau ychwanegol yn cael eu talu gan y brifysgol a gofynnwyd a oedd peirianneg gwerth wedi'i gynnal? Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y brifysgol yn talu'r costau ychwanegol a'u bod wrthi'n cynnal peirianneg gwerth. Dywedodd yr Aelodau fod costau adeiladu yn dechrau gostwng a gofynnwyd pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar asesiadau parhaus dros y 6-12 mis nesaf. Cadarnhaodd y cyfarwyddwr fod asesiad o'r effaith ar gostau adeiladu yn cael ei gynnal bob mis, mae'r adroddiad presennol bellach wedi dyddio; mae'r costau wedi cynyddu o £31 miliwn i £36 miliwn. Nodwyd bod costau'n cynyddu'n gynt nag y maent yn gostwng, ac er bod costau wedi sefydlogi, nid yw unrhyw ostyngiad mewn costau yn amlwg eto yn y contractau a ddyfarnwyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y misoedd blaenorol wedi bod yn ansefydlog, gyda'r rhan fwyaf o

brosiectau'n costio mwy na'r achosion busnes gwreiddiol ac ni ellir nodi'r costau terfynol hyd nes y dyfernir contractau dylunio ac adeiladu'r prosiectau. Mae'r chwyddiant a brofwyd ymhell y tu hwnt i'r chwyddiant safonol a gafodd ei gynnwys yn wreiddiol pan ysgrifennwyd yr achosion busnes 2-3 blynedd yn ôl.

Dywedodd yr Aelodau ei fod hanner ffordd drwy'r broses gaffael a gofynnwyd a ragwelir llithriant ac a yw contractwyr am ohirio pethau gan obeithio y bydd y costau'n gostwng. Dywedodd swyddogion fod contractwyr yn dal i wneud cais er gwaethaf y costau chwyddedig. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y gall oedi a thrafodaethau achosi llithriant, ond y gobaith yw na fydd hyn yn effeithio ar y rhanbarth sy’n denu buddsoddwyr. Nid oes unrhyw brosiectau neu raglenni wedi dweud na allant symud ymlaen ac maent naill ai'n cymryd yr ergyd o gostau cynyddol neu'n ail-negodi.

Dywedodd yr aelodau y bydd y strwythur prisiau presennol yn parhau am beth amser i ddod ond y bydd yn sefydlogi yn y pen draw ond roedd amheuaeth na fydd yn disgyn eto i'r hen lefelau. Cytunodd swyddogion nad yw prisiau’n disgyn mor gyflym ag y maent yn cynyddu, ac y bydd o bosibl yn sefydlogi, ond bydd yr anwadalrwydd yn dal i achosi problemau, gan effeithio ar refeniw. Pe bai’r Fargen Ddinesig byth yn cyrraedd sefyllfa lle na allent gyflawni’r hyn yr oeddent yn ei feddwl, gallent fynd yn ôl at y Llywodraeth ac egluro hyn ond nid yw hynny’n debygol o ddigwydd fel y mae.
Gofynnodd yr aelodau am ymweliadau safle â Phrosiect Morol Doc Penfro a phrosiectau eraill. Awgrymwyd y byddai'n briodol ymweld â Phrosiect Morol Doc Penfro gan y gallai'r safle hwn gael dylanwad ar orllewin Cymru gyfan. Cytunodd y swyddogion y gallant gefnogi hyn.

Nodwyd yr adroddiad.

## 10. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Cytunodd yr aelodau i ofyn am ymweliadau safle ar gyfer Prosiect Morol Doc Penfro a Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer fel rhan o'r flaenraglen waith.

## 11. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**